

## ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Dyma adroddiad gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn hyd at 31 Mai 2014. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Y Cynghorydd:

Phil Wynn

Plaid: Grŵp Democratiaid Annibynnol

Ward: Brynyffynnon

### Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

#### Roeddwn yn rhan o'r pwyllgorau a'r Grwpiau Tasg a Gorffen canlynol:

1. Y Cyngor Llawn
2. Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid
3. Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad (fel is-gadeirydd).
4. Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

#### Roeddwn yn aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol

1. Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Clywedog, Wrecsam

#### Rwyf wedi mynychu'r pwyllgorau/gweithgorau canlynol fel unigolyn nad yw'n aelod o'r pwyllgorau, sydd wedi trafod materion sy'n effeithio ar drigolion Brynyffynnon:

2. Grŵp Strategol Tir ac Adeiladau Corfforaethol, Bwrdd Gweithredol, Pwyllgor Craffu Addysg, Diogelu a Lles, Pwyllgor Craffu Partneriaethau a Chydweithredu, Pwyllgor Craffu Cartrefi, Amgylchedd a Chymunedau, Pwyllgor Cynllunio a Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol.

### Adran 2: Gweithgaredd Etholaeth

1. Wedi mynychu a chefnogi pum grŵp preswylwyr - Ffordd Bradley, Bryn Offa, Homestead a Foxwood Drive, Maesgwyn a Phentre Bach.
2. Rwy'n aelod o bwyllgorau rheoli ar gyfer Canolfannau Cymunedol Bellevue a Maesgwyn.
3. Wedi mynychu cyfarfodydd misol Cyfeillion Parc Bellevue yn rheolaidd.
4. Rwy'n aelod o Grŵp Llywio Adfywio Tai De Orllewin Wrecsam
5. Crëwyd agoriad yn wal gerrig Ffordd Ddyfrllyd i greu mynediad i'r cyhoedd i Barc Manwerthu Y Werddon. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau maith gyda pherchnogion y parc manwerthu ond mae'r preswylwyr lleol wedi croesawu'r llwyddiant bychan hwn.
6. Yn ystod y flwyddyn mae trigolion Pentre Bach wedi derbyn gwybodaeth mewn newyddlenni, cyfarfodydd preswylwyr a sesiynau galw draw ynglŷn ag adeiladu darn newydd o Ffordd Croesnewydd a'r cais cynllunio i greu gorsaf Dàn ac Ambiwlans newydd.
7. Rwyf wedi cynorthwyo swyddogion y Brickfield Rangers i symud i gaeau chwarae Ysgol Clywedog. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda llywodraethwyr yr ysgol a'r Pennaeth, swyddogion cynllunio a Bwrdd Gweithredol y Cyngor sydd wedi cymeradwyo prydles deng mlynedd i'r clwb pêl-droed ieuenctid i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol.

### Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

1. Ar ôl gweithio ar ran y tenantiaid tai sydd wedi dioddef ynysiad sŵn gwael rhyngddynt â'r fflatiau cyfagos, perswadiais y swyddogion i gynnwys gwaith adfer i atal sŵn yng Nghyllideb Cyfalaf Tai'r Cyngor ar gyfer 2014/15.
2. Mae nifer o'r iardiau ar stad dai Bryn Offa wedi'u hail-wynebu ar fy nghais.
3. Rwyf wedi cysylltu gyda swyddogion priffyrdd y Cyngor i gael ail-wynebu Stryd Viller a

Stryt Peel.

4. Mae gennyf ddi-ddordeb mawr er mwyn sicrhau nad yw dyheadau'r cyngor i ddarparu Tai Fforddiadwy, fel rhan o ddatblygiadau tai newydd, yn cael eu niweidio oherwydd parodrwydd cychwynnol y swyddogion cynllunio i gymeradwyo llacio cyfraniad tai fforddiadwy ar safle Brother, Ffordd Croesnewydd.
5. Mae fy nghynigion ar gyfer cytundeb cyfreithiol gyda'r datblygwr wedi diogelu ein dyheadau Tai Fforddiadwy wrth barhau, ond yn cydnabod bod rhai datblygiadau tai ar safleoedd tir llwyd yn annichonadwy oni bai y cytunir ar gyfaddawd ar gyfraniad Tai Fforddiadwy gyda swyddogion cynllunio CBSW a gefnogir gan aelodau'r pwyllgor cynllunio.

#### **Adran 4: Dysgu a Datblygu**

1. Rwyf wedi mynychu nifer o hyfforddiant / gweithdai gwybodaeth a gynhaliwyd gan y cyngor ar gyfer yr aelodau etholedig, sydd wedi'u rhestru ar ddolen gwefan y Cyngor:  
[http://www.wrexham.gov.uk/top\\_navigation/members\\_attendance/index.cfm?ID=213&action=MemberDetails](http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/members_attendance/index.cfm?ID=213&action=MemberDetails)

#### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

1. Fel is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad rwyf wedi mynychu cyfarfod paratoi misol yn rheolaidd gyda'r swyddogion a'r Cadeirydd. Roeddwn hefyd yn rhan o Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Canol y Dref a Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Stad Datblygu Economaidd y pwyllgor.
2. Fel is-gadeirydd mynychais gyfarfodydd misol Grŵp Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Craffu.
3. Rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda:
  - Cynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru
  - Fforwm Cyngor Cymuned
  - Fforwm Canol y Dref
  - Ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gogledd Cymru,
4. Roedd dyletswyddau Ysgol Clywedog yn cynnwys:
  - Cadeirydd Pwyllgor Eiddo.
  - Llywodraethwr cyswllt gwyddoniaeth
  - Ac aelod o banel recriwtio ar gyfer tri Pennaeth Cynorthwyol.
5. Cyfranogais i herio penderfyniad y cyngor i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ail ffurfwedu Ysgol Clywedog fel "ysgol bob oed". Roedd hyn yn teimlo fel y penderfyniad anghywir ar gyfer yr ysgol ar y pryd gan ei fod yn tynnu sylw oddi ar ganolbwyntio i dynnu'r ysgol o gamau arbennig. Yn ffodus ni wnaed unrhyw beth â'r syniad hwn oherwydd diffyg cefnogaeth y cyhoedd.
6. Cyngor Cymuned Offa – fel cynghorydd cymuned rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd, fe'u cynhelir ddwywaith y mis, heblaw am wyliau mis Awst.
7. Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru - fel trysorydd rwyf wedi cynorthwyo grŵp treftadaeth leol i dderbyn grantiau i ddarparu canolfan dreftadaeth symudol, ynghyd â gweithio i adnewyddu cyn fws llyfrgell i'r diben hwn. Cynorthwais i gynnal digwyddiad untro ym mis Tachwedd 2013 i ddathlu canmlwyddiant agor Gorsaf Achub Glowyr y dref, sydd wedi'i lleoli yn ward Brynyffynnon ar Ffordd Maesgwyn.

**Llofnod y Cynghorydd:** Phil Wynn

**Dyddiad:** 2 Medi 2014